

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	23 Mehefin 2021
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Uwch Swyddog Trwyddedu <a href="mailto:trwyddedu@sirddinbych.gov.uk">trwyddedu@sirddinbych.gov.uk</a> 01824 706433
<b>TESTUN:</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf ar gerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau o ran y fflyd o gerbydau trwyddedig</b>

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â'r sefyllfa bresennol yn ymwneud â Chynllun Peilot Tacsis Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer cerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Roedd Sir Ddinbych yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer pedwar cerbyd trydan ac isadeiledd gwefru i dreialu cynllun 'profi cyn prynu'.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

- 3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ddatgarboneiddio'r fflyd tacsî yn llwyr erbyn 2028.
- 3.2 Disgwylir y bydd y cynlluniau peilot Tacsî Gwyrdd yn helpu i gyflawni'r targed hwn gan y bydd yn helpu gyrrwyr tacsî i sylweddoli beth yw manteision ariannol ac amgylcheddol cerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau, a fydd gobeithio yn cyfrannu at y newid o gerbydau diesel/petrol i gerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau. Bydd y cynlluniau peilot yn weithredol am 2-3 blynedd.
- 3.3 Tair ardal y cynlluniau peilot yw Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Benfro. Bydd cyfanswm o 50 o dacsîs Nissan [Dynamo](#) trydan a sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn cael eu prynu, 44 ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, 4 ar gyfer Sir Ddinbych a 2 ar gyfer Sir Benfro. Bydd yr isadeiledd gwefru cysylltiedig (i'w ddefnyddio gan dacsîs yn unig) hefyd yn cael ei osod ymhob ardal.

- 3.4 Bydd y cynllun yn gweithredu fel menter 'profi cyn prynu', a fydd yn galluogi gyrwyr tacsï trwyddedig ymhob ardal i brofi'r cerbyd yn rhad ac am ddim am 30 diwrnod. Bydd y cyfnod prawf yn cynnwys gwefru trydanol am ddim, yswiriant, trwyddedu'r cerbyd a threfniant os yw'r cerbyd yn torri i lawr.
- 3.5 Ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf fe ofynnir i yrwyr gwblhau arolwg gwerthuso ac fe fyddant yn cael gwybodaeth ar y cynlluniau/cymorth sydd ar gael ar gyfer perchnogaeth/hurio'r cerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau yn yr hirdymor.
- 3.6 Fe fydd pob ardal beilot yn gyfrifol am reoli'r cynllun h.y. Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Sir Ddinbych a Sir Benfro, gyda phroses gais debyg ar draws pob ardal. Ar gyfer Sir Ddinbych mae Rheoli Fflyd yn arwain ac yn gweinyddu'r prosiect.
- 3.7 Er gwybodaeth i Aelodau nid yw cerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau yn rhyddhau unrhyw allyriadau yn ystod eu hoes ac mae cerbydau allyriadau Isel lawn (Hybrid ac E-REV) yn defnyddio injan gonfensiynol i un ai gweithredu fel ffynhonnell ychwanegol o danwydd ar gyfer y cerbyd neu fel ffynhonnell o danwydd ar gyfer y batri. Mae gan gerbydau Hybrid ac E-REV allyriadau CO2 is o ganlyniad i well economi tanwydd a'r gallu i weithredu mewn dull trydan yn unig.
- 4.0 **ARGYMHELLION**
- 4.1 Fod Aelodau yn nodi'r cynnwys yn ymwneud â'r wybodaeth ddiweddaraf ar Gynllun Peilot Tacsï Gwyrdd Llywodraeth Cymru.